

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Triniaethau Arbennig

Cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Mandadol yng Nghymru

Cylchlythyr Ymarferwyr Rhif 8



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn parhau i weithio drwy'r ymatebion i'n hymgynghoriad, sef proses hynod werthfawr wrth inni ddrafftio'r pum set o reoliadau a fydd yn cefnogi ein cynllun trwyddedu. Yn y cylchlythyr hwn, yn ogystal â'n diweddariad arferol o'r canolfannau hyfforddi, mae erthygl o dan y teitl 'Gofynnwch i'r Dermatolegydd' a chynghor ar reoli gwastraff.

Dyfarniad Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (RSPH) Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig

[RSPH | Level 2 Award in Infection Prevention and Control for Special Procedures Practitioners.](#)

Y diweddaraaf o'r Canolfannau Hyfforddi sydd wedi eu cymeradwyo:

Mae'r **Cyngor Cymwysterau ar gyfer Triniaethau Cosmetig (QCCP)** yn parhau i weithio gyda nifer o gynghorau i gefnogi ymarferwyr yn lleol. Mae'r e-ddysgu ar atal a rheoli heintiau, sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor Cymwysterau, wedi cael marc 10/10 yn seiliedig ar adborth gan yr ymarferwyr, gyda chyfradd pasio o 100%.

- Gallwch arbed £49 drwy neilltuo eich lle nawr. **Mae'r cynnig hwn ar gael am amser cyfyngedig yn unig.**
- Mynediad llawn at blatfform e-ddysgu
- Llawlyfr lliw ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan (Fersiwn PDF i'w hargraffu)
- Mynediad at fforwm cymorth ar-lein o dan ofal cymedrolwyr, a Chwestiynau Cyffredin
- Un cyfle arholiad ar-lein wedi ei gynnwys yn y gost (mae'r cyfleoedd ychwanegol i sefyll yr arholiad yn costio £50)

Ewch i [RSPH Level 2 Registration - \(qccp.org.uk\)](#) i gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru!

Mae **Cognition Training** info@cognition.training wedi dod yn ganolfan hyfforddi gymeradwy yn ddiweddar, ac mae wrthi'n datblygu ei deunyddiau hyfforddi, gan obeithio eu lansio ym mis Gorffennaf/Awst. Bydd lansiad y cwrs hwn yn cael ei gyhoeddi yn rhifyn nesaf [The Sharp End](#) ddiwedd mis Mehefin.

Bydd cyrsiau hyfforddiant nesaf **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS)** yn cael eu cynnal ddydd Llun 17 Gorffennaf (Neuadd y Ddinas, Caerdydd) a dydd Llun 21 Gorffennaf (Swyddfeydd Dinesig, Y Barri). Mae ymarferwyr yn cael eu hannog i gadw eu lle cyn gynted â phosibl os ydyn nhw am ymuno ag un o'r sesiynau hyn.

Bydd dyddiadau yn yr hydref yn cael eu cyhoeddi ar wefan SRS maes o law. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant, y gost, a sut i gadw eich lle, ar ei dudalen hyfforddiant: [Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig \(srs.wales\)](#)

Gallwch hefyd gysylltu ag SRS drwy e-bostio: training-srswales@valeofglamorgan.gov.uk

Mae **Coleg Llandrillo** yn cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb. Dylid anfon unrhyw ymholiadau at Louise Duller: duller1l@gllm.ac.uk

MM Training Academy – Dylai ymarferwyr sydd â diddordeb yn ei chysiriau gofrestru drwy fynd i www.mmtrainingacademy.co.uk a chlicio ar ‘online courses’.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned – Unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Rachel.Richards@torfaen.gov.uk

Gofynnwch i'r Dermatolegydd.

Beth yw anaffylacsis?

Mae anaffylacsis yn adwaith alergaidd difrifol sy'n datblygu'r gyflym a pheryglu bywyd. Mae arwyddion anaffylacsis yn cynnwys croen coch sy'n cosi, y tafod/gwddf/gwefusau'n chwyddo, anadlu gwichlyd, teimlo'r wan/penysgafn, a llewygu. Y pethau sydd fwyaf tebygol o achosi anaffylacsis yw bwydydd, meddyginiaeth, neu gael eich pigo gan wenyn. Gallai alergedd sydyn gael ei achosi hefyd gan *latex* (mewn menig, *sticky transfers*, chwistellau, *rubber bungs*), chlorhexidine neu gemegau eraill sy'n cael eu defnyddio i lanhau'r croen, ac o bosib elfennau o'r inciau sy'n cael eu defnyddio i datwio. Os yw cleient yn dweud y gallai ddioddef anaffylacsis o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag unrhyw gynhwysion/llewyddion mewn inciau neu gynnyrch eraill a ddefnyddir yn ystod y broses datwio, ni ddylech gynnig tatwio'r unigolyn hwnnw.

Mae archwiliadau i'r hyn sy'n achosi anaffylacsis yn cael eu gwneud fel arfer gan feddygon imiwnoleg, drwy brofion pigo neu brofion gwaed.

A ellir cynnig triniaethau tatwio a thyllu'r corff i gleientiaid sydd ag ecsema/ psoriasis?

Ni ddylid gwneud tatwio a thyllu'r corff ond ar groen iach nad yw'n dangos unrhyw arwyddion o ecsema neu psoriasis. Mae cleientiaid sydd ag ecsema yn aml yn cario mwy o facteria neu feirysau ar y croen, a byddai tatwio man sy'n dangos arwyddion o ecsema yn fwy tebygol o roi bacteria neu feirysau yn y croen ei hun. Mae croen lle mae arwyddion o psoriasis yn golygu bod ychydig bach mwy o risg nag arfer.

Gallai cleientiaid sydd â phroblemau croen megis psoriasis hefyd dioddef "koerbnerisation". Mae hynny'n golygu os oes gan gleient psoriasis (unrhyw le ar ei groen), gallai psoriasis ddatblygu ar y croen sydd wedi ei datwio oherwydd y trawma corfforol i'r croen hwnnw. Gallai'r cyflwr lichen planus 'koerbnerise' mewn tatws yn yr un modd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar gyfer ein Dermatolegydd, cofiwch e-bostio nhw i

Sarah Jones: Sarah.Jones058@llyw.cymru.


Byddwn wedyn yn cyhoeddi'r atebion yn y rhifyn nesaf o'r clychlythyr.

Rheoli gwastraff

Rydym yn disgwyl gweithredu canllawiau newydd ar gyfer sicrhau bod gwastraff gofal iechyd yng Nghymru yn cael ei reoli mewn modd diogel a chynaliadwy. Bydd y canllawiau yn berthnasol i bob gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan ffynonellau gofal iechyd a ffynonellau trefol, gan gynnwys gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan driniaethau arbennig. Mae hwn yn gyfle i ystyried lleihau neu ddileu gwastraff diangen, gan gynnwys ystyried sut yr ydych yn defnyddio plastig (PVC), er mwyn lleihau'r niwed i'r amgylchedd.

Mae gwastraff sydd wedi ei halogi â gwaed neu hylifau corfforol, fel menig, ffedogau, gorchuddion mân, neu *cotton wool*, yn cael ei alw'n gwastraff annymunol "*offensive waste*" (bag du a melyn/ "*tiger bags*") ac mae'n anghywir ei waredu mewn bagiau gwastraff clinigol "*clinical waste*" (bagiau

oren). Gweler y diagram isod ar gyfer y math o wastraff a'r codau sy'n cael eu hargymell er mwyn ichi ofyn i'ch contractiwr amdanynt, gan y gallai'r lliwiau amrywio.

Math o wastraff	EWC (Codau Gwastraff Ewropeaidd) a rhif UN	Bag neu flwch etc
Gwastraff domestig/ gwastraff trefol cymysg	20 03 01	 Black bag
Gwastraff annymunol (<i>offensive waste</i>) (trefol)	20 01 99	 Yellow and black striped bag
Offer miniog, nad ydynt wedi eu halogi gan feddyginiaethau	Blwch melyn â chaead oren ar gyfer offer miniog 18 01 03 or 18 02 02 UN 3291	 Orange-lidded, yellow sharps box

Mae peidio â rheoli gwastraff mewn modd priodol yn gallu achosi costau sylweddol. Dylai papur a deunydd pecynnu, nad ydynt wedi eu halogi, gael eu rhoi mewn bagiau du/ bagiau gwastraff domestig, ac ni ddylent gael eu cymysgu â gwastraff annymunol (*offensive waste*). Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cyflwyno canllawiau newydd ar gyfer gwahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu (gweler y ddolen isod).

[Casgliadau gwastraff ar wahân ar gyfer gweithleoedd | LLYW.CYMRU](#)

Mae gwahanu a rhannu gwahanol fathau o wastraff yn lleihau eich costau gwaredu, gan arbed arian ichi a lleihau eich ôl troed carbon, sy'n well i'r amgylchedd a dyfodol y byd, gan mai dim ond gwastraff risg uwch sy'n cael ei drin neu ei losgi.

Ffynhonnell: wrthi'n cael ei hadolygu:

<https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/>